

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Delyth Jenkins

Crynodeb:

Mae'r llyfr wedi'i selio ar atgofion Delyth o'i phlentyndod. Mae *Mynd i Weld Nain* yn dilyn dwy chwaer a'u mam wrth iddynt ymweld â Nain yn ei byngalo yng nghanol y wlad ble maen nhw'n cael Nadolig perffaith drwy fwyta llond eu boliau ac adeiladu dyn eira. Mae hud y Nadolig a'r cariad rhwng Nain a'i hwyresau yn gynhesrwydd drwy'r llyfr.



Rho ychydig o dy gefndir inni...

Cefais i fy ngeni a fy magu dros y ffin yng Nghroesoswallt. Er bod fy mam yn siarad Cymraeg, Saesneg oedd iaith yr aelwyd, gan nad oedd fy nhad yn siarad Cymraeg. Dysgais i Gymraeg fel oedolyn, a dwi'n hynod o falch bod fy merched wedi eu magu yn siarad Cymraeg. Mae'r llyfr *Mynd i Weld Nain* yn dathlu sut y bu i'r iaith Gymraeg ddychgwelyd at deulu ar ôl iddi bron â mynd ar goll.

Dywed ychydig am *Mynd i Weld Nain* – o ble ddaeth yr ysbrydoliaeth?

Mae *Mynd i Weld Nain* yn hunangofiannol. Y Nain yn y llyfr yw fy mam, a'r ddwy ferch fach yw fy merched, sydd bellach yn eu tridegau. Y rheswm gwreiddiol dros ysgrifennu'r llyfr oedd er mwyn i'r merched a fy wyrion gael rhyw syniad o sut berson oedd Nain. Bu hi farw pan oedd y merched yn ddim ond 6 a 4 oed, felly mae eu hatgofion ohoni yn frith. Nawr fy mod i wedi ysgrifennu'r llyfr, bydd hanes cryno'r teulu yno iddyn nhw am byth, a phan fydda i ddim o gwmpas rhagor i adrodd yr hen straeon.

Ond mae *Mynd i Weld Nain* yn fwy na stori fy nheulu i. Mae'n sôn am gariad rhwng y cenedlaethau a allai fod yn unrhyw deulu, a sut y gallwch chi ddangos cariad at blant heb roi llwyth o anrhegion drud iddynt. Mae Nain yn rhoi ei hamser i gadw

pethau bach fel botymau a rhubanau a fydd yn tanio dychymyg y merched wrth iddyn nhw chwarae. Mae hi hefyd yn dangos ei chariad trwy goginio bwyd da iddyn nhw. Un o'r danteithion mwyaf cofiadwy mae hi'n ei wneud yw'r deisen Nadolig gyda dyn eira ar y top. Gan fod Nain mor arbennig, mae'r merched yn dychmygu bod y dyn eira ar y deisen yn hedfan – neu ydy e wir yn hedfan? Mater i'r darlennydd yw dychmygu a phenderfynu...

Beth yw dy hoff genres darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?

Dw i'n hoff iawn o ddarllen nofelau a chofiannau. Yn ddiweddar dw i wedi mwynhau *Drift* gan Caryl Lewis, *Hallt* gan Meleri Wyn James a *Burial Rites* gan Hannah Keny. A dw i newydd orffen *One Hundred Miracles*, hunangofiant syfrdanol yr harpsichordist Tsiecaidd, Zuzana Ruzickova, a oroesodd erchyllterau Auschwitz a Bergen-Belson, i ddod yn un o gerddorion amlycaf yr ugeinfed ganrif yn ei maes. Dw i hefyd yn mwynhau llyfrau ffeithiol, ac yn hoff iawn o lyfrau Robert MacFarlane.

Rho ddyfyniad sydd wrth wraidd dy fywyd di.

Mae'r cloc yn tician, felly mae'n well gwneud y gorau o bob dydd.



Bywgraffiad

Mae Delyth Jenkins yn fam, yn nain, ac yn delynores. Dechreuodd ei gyrfa gyda'r band gwerin o Abertawe Cromlech, ac yna aeth ymlaen i ffurfio'r triawd offerynnol arloesol Aberjaber. Mae hi'n chwarae mewn deuawd gyda'i merch Angharad Jenkins, a gyda'i gilydd maen nhw'n cael eu hadnabod fel DnA. Yn 2019, cyhoeddodd y llyfr *That Would Be Telyn* (Y Lolfa,) sy'n adrodd hanes ei thaith o gwmpas Llwybr Arfordir Sir Benfro gyda'i thelyn fach. *Mynd i Weld Nain* yw ei llyfr cyntaf i blant.

Y Lolfa

www.ylolfa.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan llyfrgelloedd.cymru